

CYNGOR CYMUNED LLANDDAROG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion o gyfarfod Mis Tachwedd Cyngor Cymuned Llanddarog a gynhaliwyd ar y 10/12/2014 yn Festri Porthyrhyd.

Minutes of the November meeting of Llanddarog Community Council held on the 10/12/2014 at the Vestry Porthyrhyd

Presennol / Present:

Cynghorwyr / Councillors

Cllr S Evans., Cllr Huw Voyle Williams, Cllr Roy Owen
Cllr R Jones , Cllr John Howells , Cllr Vilna Thomas , Cllr J Youens ,
Cllr Terry Jones, , Cllr Wyn Evans

1.0 Adroddiad y Cadeirydd / Chairman's Report

Croeshawodd y Cadeirydd pawb i'r Cyfarfod / The Chairman welcomed everyone to the Council's Meeting.

2.0 Ymddiheuriadau / Apologies:

Derbyniwyd ymddiheuriad wrth / Apologies were received from :- Cllr Robert Newell, Cllr I Thomas

3.0 Cadarnhau cofnodion cyfarfod MisTachwedd 2014 / Confirmation of the accuracy of the November 2014 minutes .

Cynigiodd y Cyng Terry Jones ac eiliwyd gan, Cyng Wyn Evans a cytunodd pob aelod fod cofnodion cyfarfod Mis Gorffennaf yn gywir. /
It was proposed by Cllr Terry Jones and seconded by Cllr Wyn Evans and all members agreed that the minutes of the July meeting were correct.

4.0 Datganiadau o fuddiannau personol / Declaration of personal interest.

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad / No declaration of interest was received.

5.0 Materion yn Codi o'r cyfarfod diwethaf / Matters arising from the previous meeting

1. Adroddiad am y Fforwm Cysylltu (Cysylltu am Gyllid y Cyngor Sir 2015/16) ar y 4 Rhagfyr 2014 am 6.15 yh yn Neuadd y Sir. / Report re the Liaison Forum on the 4th December 2014 (Carmarthenshires budget for 2015-6.)

Roedd y Cadeirydd wedi mynychu cyfarfod y Fforwm Cysylltu gyda'r Cyngor Sir ar rhan y cyngor . Dywedodd bod y Cyngor Sir yn disgwyl toriad mewn incwm o tua 3.3% yn y flwyddyn nesaf sydd yn golygu toriad o £9 miliwn. Gyda chwyddiant o tua 2.1% bydd hyn yn cael effaith mawr ar y gwasanaethau maer cyngor Sir yn ei rhoi. Ar ben hyn hefyd mae na ymrwymiad i rhai gwasanaethau fel cyllid ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol ac oherwydd hyn bydd mwy o doriad mewn gwasanaethau eraill fel Gwasanaethau Technegol. Maer toriad blynyddol ar y gwasanaethau eraill yn debygol o fod tua £13.5 miliwn yn 2015/16 , £16 miliwn yn 2016/17 a 12.5miliwn yn 2017/18

/The Chairman had attended the above forum and informed that Carmarthenshire County Council were expecting a cut in income from the Welsh Government in the order of 3.3% next year which equates to approx £9 million . With inflation running at 2.1% this will have a severe effect on services provided. On top of this there is a commitment to some services such as the schools budget and parts of social services and as such other services will have an even bigger cut in their budget . eg Technical services. The savings on these services proposed each year were expected to be in the order of 2015/16 £13.5million, 16million in 2016/17 and 12.5million in 2017/18

2. Adroddiad Fforwm Blynyddol Sir Gaerfyrddin / Carmarthenshire Annual Forum / 27 Tachwedd 2014 yn Theatr Halliwell ,Caerfyrddin. / 27th November 2014 at the Halliwell Theatre.

Roedd y Cyng J Youens yn bresenol ar rhan y Cyngor. Rhoddodd adroddiad byr i'r cyngor . Y prif bwnc trafod oedd - Mynd i'r afael â thlodi ar ffordd i helpu pobl i gael gwaith , atal tlodi a gwella bywydau pobl sy'n byw mewn tlodi. Roedd rhan fwyaf o'r drafodaeth am cyd weithrediad a'r ffordd y gallai Sir Gaerfyrddin gyrraedd y 6 targed yn y ' Future Generations Bill' / Cllr J Youens had attended on behalf of the Council and gave a brief report to council . The main topic discussed was the Tackling Poverty and how to prevent it , helping people back to work and mitigating the impact of poverty. Much of the discussions was around future collaboration on how Carmarthenshire can reach the 6 goals as will be set out in the 'Future Generations Bill'.

3. Sbwriel ger Pantypwll / Rubbish boxes near Pantypwll

Roedd y sbwriel wedi ei waredi / The rubbish had been removed

6.0 Gohebiaeth/ Correspondence

1. Cyngor Sir Caerfyrddin - Seminar Cynllunio

Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Awdurdod wedi cynnal seminar ar gyfer Aelodau a Chlercod Cynghorau Tref a Chymuned. Mae'r rhain yn gyffredinol wedi cael eu cynnal bob dwy flynedd, fodd bynnag, o ystyried y newidiadau sydd ar y gweill i'r system gynllunio, y bwriad yw cynnal yr un nesaf yn Chwefror 2015

Rwy'n ysgrifennu i holi a fyddai cynrychiolwyr eich Cyngor efo diddordeb mewn mynychu digwyddiad o'r fath. Y pynciau a drafodir bydd: -

- Y Mesur Cynllunio
- Y Cynllun Datblygu Lleol
- Newidiadau Rheoli Datblygu

A fyddech mor garedig a rhoi gwybod i Rhian Davies ar (01267) 228679 / rhldavies@sirgar.gov.uk os oes gan eich Cyngor unrhyw ddiddordeb, ac os felly, faint fyddai'n debygol o fod yn bresennol er mwyn galluogi trefnu maint a lleoliad y seminar.

Carmarthenshire County Council – Planning Seminar

The Authority over recent years has held a seminar for Members and Clerks of Town and Community Councils. These have generally been held every two years, however, given forthcoming changes to the planning system, it is proposed to hold the next in February 2015.

I am writing to enquire if representatives of your Council would be interested in attending such an event. Topics to be covered will be:-

- The Planning Bill
- The Local Development Plan
- Development Management Changes

Please advise Rhian Davies on (01267) 228679 / rhldavies@carmarthenshire.gov.uk if your Council has any interest, and if so, how many would be likely to attend to enable the size and location of the seminar to be arranged.

Cytunodd y Cyngor bod y cyfarfod o werth a penderfynwyd i fynychu'r cyfarfod pan fydd yn cael ei gynnal / The Council decided that the above meeting was worth attending and will send delegates when the date is known.

2. Cymdeithas yr Iaith / Welsh Language Society yn gwahodd cynrychiolydd o'r cyngor cymuned i gyfarfod agored Tynged yr Iaith Sir Gar yn Neuadd San Pedr, Caerfyrddin ar ddydd Sadwrn, Ionawr 17, 2015 am 10.30yb. Bwriad y cyfarfod yw rhoi cyfle i bobl Sir Gaerfyrddin benderfynnu a

Yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn cymeryd y Gymraeg o ddifrif. / invite a representative of the council to a meeting at St Peters Hall ,Carmarthen on Saturday 17th January at 10.30am . The purpose of the meeting is to provide an opportunity for the people of Carmarthenshire to decide if Carmarthenshire County Council is giving enough importance to the Welsh Language .

Bydd y Cyng Vilna Thomas yn mynychu y cyfarfod ar rhan y Cyngor. / Cllr Vilna Thomas will attend the meeting on behalf of the Council

3. CCC yn ysgrifennu i ofyn am gefnogaeth y Cyngor Cymuned ar gyfer ei apel Teganau Nadolig . Maent yn awyddus i wneud y Nadolig yn haws ar gyfer rhai sydd mewn sefyllfa ariannol anodd./ write to ask for the Community Council's support for the Christmas Toybox appeal. The intention is to help make Christmas easier for those in difficult financial situations.

4. Mrs Meinir Jones yn danfon llythyr o ddiolch ar rhan staff a disgyblion Ysgol Llanddarog I ddiolch am gyfraniad hael iawn tuag at gost mynd i wersi nofio . Maent yn gwerthfawrogi haelioni a chefnogaeth y Cyngor i'r ysgol bob amser. / Mrs Meinir Jones writes to thank the council on behalf of the pupils and staff of Llanddarog school for the generous donation given towards the cost of going to swimming lessons. They very much appreciate the generosity of the Council and the support given to the school at all times.

5. NJC Llywodraeth Lleol yn danfon gwybodaeth am godiad cyflog Llywodraeth leol am 2015-16 . I Gyngor Cymuned Llanddarog bydd y godiad yn 2.2% sydd yn dilyn chwyddiant ac fydd hefyd i taliad ychwanegol o £100./ send the new Pay Scales for Local Government services for 2015-2016.. For Llanddarog CC the increase is 2.2% approx in line with inflation plus a one off payment of £100.

6. Dyfed Police and Crime Commissioner yn gofyn am help wrth gymyneda i osod eu praesept am 2015/6 . Mae yn awyddus I wybod barn y cyhoedd am faint maent yn fodlon talu am y gwasanaeth . Gyda hyn mewn golwg mae wedi trefnu nifer fach o gwestiynau i'w ateb. Gellir gweld rhain ar y we fan isod. Dyddiad cau 4 Ionawr 2015. Mae copi caled i'w gael drwy ei swyddfa.

/ requesting assistance from communities in setting the 2015/6 police precept . He is eager to understand what the public wish to pay for in the policing service and with this in mind he is running a survey asking a small number of key questions .

This can be found on line at <https://dpopcc.typeform.com/to/zGJFw> or a hard copy can be obtained through his office.. The survey ends on the 4th January 2015

7. CCC Arwyddion Ceffylau / Horse riding signs .

Yn dilyn llythyr wrth y Cyngor Cymuned yn gofyn am arwyddion ceffylau yn Mynyddcerrig a'r cyfarfod gyda Mr Andrew Morgan, Swyddog Trafnidiaeth maer cyngor Sir yn ymddiheurio am yr amser meant wedi cymryd i ateb y cais. **Gwelir isod gopi o ateb y Cyngor Sir**

"With reference to the council's correspondence and also to the site meeting held with Andrew Morgan, Traffic Engineer of this office, regarding

your request for horse warning signs in the Mynyddcerrig area, and apologise for the delay in my reply. **Please see reply below**

“The delay has been due to the fact that the authority is in the process of updating its horse warning sign policy, and is currently in the process of presenting a report to the executive board member, for approval. Under the old policy your application would unfortunately not have met the necessary criteria, and would have been refused.

However, I am pleased to inform you that subject to the new policy being agreed by the Executive board member early in the new year, your application will be approved under the new criteria. The application will then be placed on our forward works program for commissioning the warning signs, as and when the necessary funding becomes available. However, should the Community Council wish to purchase and pay for the signage themselves I can obtain an estimate and forward it to yourselves for your consideration. (Please see attached scheme indicating location of proposed signs).”

6.0 Un Llais Cymru /One Voice Wales

Dim gohebiaith wedi ei dderbyn/ No correspondence received

7.0 Adroddiad yr arolygwr ariannol mewnol / Internal financial examiners report

Dywedodd y Cyng Robert Jones ei fod wedi gwneud arolgwg o faterion ariannol a rheoli cyngor cymuned Llanddarog ar y 27/11/14 ac ei fod yn falch I ddweud bod dim mater a oedd angen dod i sylw y cyngor ./
Cllr Rober Jones informed that he had carried out an examination of Llanddarog community council's financial /management control up to the 27/11/14 and was glad to report he found no matters that need to be brought to the councils attention..

Roedd hefyd wedi edrych ar cyfradd y gwariant yn erbyn y cyllideb ac heb weld gwahaniaeth sylweddol o bryder / He also checked the council's rate of expenditure against the budget plan and found no significant variation that was of concern.

8.0 Cynllunio / Planning

Full Planning

W/31212 renovation and second storey extension with static Caravan at Llandre ,Llanddarog.

W/31251 construction of a detached dwelling to the rear of the vicarage Llanddarog.

Derbyniwyd pryder wrth y Cyngor bod lleoliad y tŷ yn agos iawn ac yn edrych I mewn tuag at Stad Brynhyfryd.

Hefyd roedd pryder bod y lleoliad yn cael ei or-ddatblygu ac bod diffig golygfa tuag at Porthyrhyd i foduron i ddod allan or safle yn ddiogel. Gofynnwyd i'r clerc i ysgrifennu at yr adran Gynllunio i wrthwynebu y cais. / The clerk was asked to write to the Planning Department to oppose the development. /

Concern was expressed by Council with regard to the location of the proposed house as it was in very close proximity to bungalows in the Brynhyfryd Estate. It was also felt that the site was being overdeveloped and was back land development . It was also felt that visibility to the East of the site was not sufficient for safe access from the site.

W/31274 extension to existing garage (domestic) and repositioning of existing vehicular access to property at Esgair Fach, Llanddarog.

9.0 Taliadau a derbyniadau / Payments and receipts

Capel Bethlehem Porthyrhyd £165

10.0 UFE /AOB

1. Gofynnwyd a oedd y Cyngor yn mynd i rhoi grant i brynu coed a golau Nadolig eleni i dri pentref y gymmuned .

Cytunwyd bod y cyngor yn rhoi grant o £50 gyda derbynneb.

/ Questions were raised as to whether the Community Council were going to provide Christmas tree grants to the three villages this year.

It was agreed that the Council would provide up to £50 grant on production of a receipt

2 .Derbyniwyd wybodaeth bod y Cadeirydd wedi derbyn gwahoddiad i noson canu carolau ger y goeden Nadolig yn Mynyddcerrig ar Nos Sul 21/12/14 on yn anffodus roedd yn methu mynd. /

Council were informed that the Chairman had been invited to the Carol singing by the Christmas Tree at Mynyddcerrig on the Sunday Evening 21/12/14. The Chairman informed that he was not available on the this date .

Cytunwyd bod yr Is Gadeirydd yn mynychu y digwyddiad ar rhan y Cyngor ./ It was agreed that the Vice Chairman should attend on behalf of the Council.

3. Gofynnwyd i'r clerc i ofyn i'r Cyngor Sir a oedd cynrychiolydd y Cyngor fel Llywodraethwr yr Ysgol yn gallu cymryd rhan mewn trafodaeth yn y cyngor am faterion i wneud a'r ysgol (yn enwedig mewn materion ariannol) . Neu oedd rhaid iddynt ddatgan diddordeb a dim cymryd rhan yn unrhyw drafodaeth. / The clerk was asked to find out from CCC if the Community Council appointed School Governors can participate in issues involving the Village School (especially financial matters) at Council meetings or do they have to declare an interest and not take part in any discussion

4. Gofynnodd y Cyng Roy Owen a allai Pwyllgor Llesiant Mynyddcerrig blannu coeden yn y pentref . Derbyniodd wybodaeth y byddai rhaid cael caniatad wrth y Adran Briffyrdd ac Adran Dai y Cyngor Sir. / Cllr Roy Owen asked if the Welfare Committee at Mynyddcerrig could in future plant a tree in the village on County Council Land . He was informed that the Welfare committee needed to obtain permission from the Highways Dept and also from the Housing Dept as it was their land .

.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00 yh a dymunodd y Cadeirydd Nadolig Llawen I bawb /The meeting finished at 9.00 pm.and the Chairman wished everyone a Merry Christmas .

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 14/1/2015 am 7.30pm / The next meeting will be held on the 14/1/2015 at 9.00 pm.